

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Cyflwyniad:

Pwrpas y poster yma yw adlewyrchu sut gall athrawon addysgu yn drawsgwricwlaidd gan ddefnyddio modelau Barnes (2015). Gwelir ochr draw'r poster bod wyth model posib i'w ddefnyddio. Noda Plowden (1967, dyfynnwyd yn Kerry, 2015) bod trafodaethau yng nghylch y cwricwlwm yn pwysleisio nad yw dysgu plant yn gyfyng i un pwnc unigol. Cytuna Barnes (2015) ag agwedd Plowden tuag at addysgu plant. Cyflwynna bod unigrywiaeth unigolion yn sylfaen holl bwysig i ddeall pam dylid addysgu'n drawsgwricwlaidd. Pob eiliad mae unigolyn yn dysgu gwybodaeth newydd mae niwronau yn gwneud cysylltiadau di-ri boed yn ffisegol, synhwyrol neu wybyddol. Felly nodir bod addysgu trawsgwricwlaidd effeithiol yn adlewyrchu'r cysylltiadau niwrolegol yma.



(Yr Athrofa, 2018)

Model 1 – Aml Ddisgyblaethol

Dewisir y fodel yma gan Barnes (2015) i gyfleu'r gwersi a fydd y seiliedig ar drip i Dan-yr-Ogof. Dylid fod yn wyladwrus wrth gynllunio ar gyfer y model yma oherwydd fel dywed Barnes (2015) ‘discrete learning in two or three subjects is enhanced’. Yn dweud hyn gellir defnyddio model arall i gyd-fynd a'r cynllunio sef oportiwnistaidd. Hawliwyd y plant i feddwl am wersi yn deillio o'r ymweliad. Cefnogi'r ymarfer yma gyda llais y plentyn. Cyfres o wersi i ddisgyblion cyfnod allweddol dau byddir yn cynllunio ar gyfer.

1. Ymchwilio i raeadrau Cymru a byd-eang er mwyn cyflwyno i'r dosbarth cyn yr ymweliad ac yna ar yr ymweliad creu darluniau wedi'i anodi o raeadrau byddant yn gweld.
2. Ar ôl yr ymweliad gan ddefnyddio beebot neu Minecraft gall y disgyblion codio'r daith o amgylch Dan-yr-ogof ac yn ychwanegol creu amserlen o'r daith.
3. Ysgrifennu ymson am yr ymweliad gan gynnwys geirfa pwnc penodol.
4. Creu cyflwyniadau ar beth maent wedi dysgu, anagir i ddewis un pwnc (ogofau, oes yr haearn, deinosoriaid, glaw acid a.y.b). Rhaid i'r disgyblion defnyddio green screen a recordio ar ddyfais i ddarlledu i weddill y dosbarth.

Model 2 – Thema Seiliedig

Seiliwyd y gwersi yma ar lyfr Charlie a'r ffatri Siocled. Amlyga'r addysgu drwy nifer o bynciau gwahanol ond yn deillio o'r un man cychwyn sef y llyfr. I sicrhau addysgeg dda i'r disgyblion noda Barnes (2015) ni ddylid ceisio ymgorffori pob pwnc i'r thema, dim ond y rhai a fydd yn helpu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau deal a chanfod gwybodaeth. Eto gwersi i blant CA2 bydd y rhain

Rhifedd:

- Pwyso cynhwysion i greu siocled.
- Adlewyrchiad siocled/losin gan ddefnyddio cyfesurynnau.
- Codio beebot i greu taith o amgylch y ffatri.

Llythrennedd:

- Ysgrifennu rysâit.
- Creu cyfarwyddiadau i ddarganfod y tocyn aur.
- Darllen y stori ar y cyd neu fel grŵp.

Cymhwysedd Digidol:

- Dylunio Siocled/Losin ac yna ei chyflwyno mewn 'Dragons Den'.
- Defnyddio meddalwedd VR i newid y dosbarth i ffatri.
- Golygu ffilm o'r daith.

- * Ennyn diddordeb (Estyn, 2016)
- * Cymhwyso gwybodaeth flaenorol (EdTech)
- * Athrawon yn hwyluso yn lle addysgu'r holl beth.
- * Disgyblion yn gwneud cysylltiadau rhwng pynciau yn annibynnol (Ofsted, 2010)

Y Modelau Trawsgwricwlaidd

- Symbolaidd
- Hierarchaidd
- Pwn Unigol Trosglwyddadwy
- **Theman seiliedig**
- **Aml Ddisgyblaethol**
- Rhyng Ddisgyblaethol
- **Oportiwnistaidd**
- Ffocws Dwbl

Dyfodol Llwyddiannus

- Cyflwyno cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd sydd rhaid cael ei ymgorffori ym mhob gwers – rhifedd/llythrennedd a chymhwysedd digidol.
- Mae'r 4 diben yn cefnogi addysgu'n drawsgwricwlaidd i ymestyn a datblygu sgiliau'r plentyn.
- Argymhellion 6-8 y ddogfen.
- Cefnogi theori Parth Datblygu Procsimol Vygotsky (1978) – plant yn cyd-weithio.

Sgiliau Model Aml Ddisgyblaethol – Blwyddyn 4

Sgiliau Llythrennedd:

- esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyl, *e.e. deunyddiau ar sgrin ac ar y we*
- addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darlennydd, gan ddewis geiriau'n addas, *e.e. iaith ddisgrifiadol ac iaith berswadiol*
- defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir

Sgiliau Rhifedd:

- adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
- darllen a defnyddio clociau analog a digidol (Bl.5)

Sgiliau Cymhwysedd Digidol:

- addasu a chyflwyno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol.
- dylunio dilyniannau syml o gyfarwyddiadau (algorithmau) gan gynnwys defnyddio gwerthoedd Boolean (h.y. ie/na/gwir/gau), *e.e. o fewn algorithm, arddangos y defnydd cywir o werthoedd Boolean, gan roi ateb 'naill ai/neu'.*

Sgiliau Model Thema Seiliedig – Blwyddyn 5

Sgiliau Llythrennedd:

- cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, *e.e. cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi*
- ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp,
- defnyddio strwythurau brawddeg gwahanol

Sgiliau Rhifedd:

- dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas
- defnyddio cyfesurynnau i bennu lleoliad.

Sgiliau Cymhwysedd Digidol:

- gweithio gydag eraill i greu prosiect ar-lein ar y cyd at ddiben penodol, gan rannu a gosod caniatâd mewn ffordd briodol ar gyfer aelodau eraill y grŵp
- dylunio dilyniannau syml o gyfarwyddiadau (algorithmau) gan gynnwys defnyddio gwerthoedd Boolean

Cyfeiriadau

Barnes, J. (2015) *Cross-curricular Learning 3-14*. 3rd Ed. London: SAGE publications.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> [Mynediad: 26ain o Dachwedd 2019]

- Nid yw pob pwnc yn gallu cael ei addysgu drwy'r modelau
- Cynllunio ac asesu yn newid yn gyson oherwydd bod plant yn ymrwymo'n fwy i un peth na'r llall felly rhaid addasu ar yr unfan neu'n wythnosol (Ward, dim dyddiad)

Rhestr Cyfeirnod

Barnes, J. (2015) *Cross-curricular Learning 3-14*. 3rd Ed. London: SAGE publications.

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yma: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> [Mynediad: 26ain o Dachwedd 2019]

Estyn. (2016) *Themau trawsgwricwlaidd sy'n datblygu medrau allweddol disgyblion*. Caerdydd. Ar gael yma: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/themau-trawsgwricwlaidd-sy'n-datblygu-medrau-allweddol-disgyblion?_ga=2.130920648.693028143.1574704147-2028235825.1506966605 [Mynediad: 28ain o Dachwedd 2019]

Kerry, T. (2015) *Cross-Curricular Teaching in the Primary School*. 2nd Ed. London: Routledge.

Lawrence, C. (2019) *EdTechLens – Five Reasons to Try Theme-Based Learning*. Ar gael yma: <https://www.edtechlens.com/blog/try-theme-based-learning> [Mynediad: 28ain o Dachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru. (2008) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. Caerdydd. Ar gael yma: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-cymhwysedd-digidol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/> [Mynediad: 25ain o Dachwedd 2019]

Llywodraeth Cymru. (2008) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd. Ar gael yma: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/> [Mynediad: 25ain o Dachwedd 2019]

Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2019) *Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022*. Caerdydd. Ar gael yma: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022/> [Mynediad: 28ain o Dachwedd 2019]

McLeod, S. (2019) *The Zone of Proximal Development and Scaffolding – Simply Psychology*. Ar gael yma: <https://www.simplypsychology.org/Zone-of-Proximal-Development.html> [Mynediad: 26ain o Dachwedd 2019]

Ofsted. (2010) *Learning: creative approaches that raise standards*. Manchester. Ar gael yma: <https://dera.ioe.ac.uk/1093/1/Learning%20creative%20approaches%20that%20raise%20standards.pdf> [Mynediad: 28ain o Dachwedd 2019]

Ward, G. (dim dyddiad) *Using Theme Cycles*. Ar gael yma: https://researchonline.jcu.edu.au/529/2/ward_1.pdf [Mynediad: 29ain o Dachwedd 2019]

Yr Athrofa. (2018) Keynote Speaker. Ar gael yma: <https://athrofa.cymru/2018/05/02/graham-donaldson-live-at-yr-athrofa/> [Mynediad: 19ain o Rhagfyr 2019]